# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 7 Gorffennaf 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

## 13(v2)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

### 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i'r Gweinidog Newid Hinsawdd

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn ymateb i'r galwadau gan arweinwyr y 22 o awdurdodau lleol Cymru i Lywodraeth Cymru adolygu pwerau a chylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru?

## 4 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## Cynigion i ethol Aelodau i Bwyllgorau

**NDM7753 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

Sarah Murphy (Llafur Cymru), Ken Skates (Llafur Cymru), Altaf Hussain (Ceidwadwyr Cymreig), Sioned Williams (Plaid Cymru) a Jane Dodds (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

**NDM7754 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

Ken Skates (Llafur Cymru), Buffy Williams (Llafur Cymru), Laura Anne Jones (Ceidwadwyr Cymreig), James Evans (Ceidwadwyr Cymreig) a Siân Gwenllian (Plaid Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

**NDM7755 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

Alun Davies (Llafur Cymru), Carolyn Thomas (Llafur Cymru), Joel James (Ceidwadwyr Cymreig), Sam Rowlands (Ceidwadwyr Cymreig) a Mabon ap Gwynfor (Plaid Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

**NDM7756 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

Hefin David (Llafur Cymru), Vikki Howells (Llafur Cymru), Sarah Murphy (Llafur Cymru), Samuel Kurtz (Ceidwadwyr Cymreig), a Luke Fletcher (Plaid Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

NDM7757 - Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

Mike Hedges (Llafur Cymru), Jack Sargeant (Llafur Cymru), Joyce Watson (Llafur Cymru), Gareth Davies (Ceidwadwyr Cymreig), a Rhun ap Iorwerth (Plaid Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

NDM7758 - Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

Huw Irranca-Davies (Llafur Cymru), Jenny Rathbone (Llafur Cymru), Joyce Watson (Llafur Cymru), Janet Finch-Saunders (Ceidwadwyr Cymreig), a Delyth Jewell (Plaid Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

NDM7759 - Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

Hefin David (Llafur Cymru), Alun Davies (Llafur Cymru), Carolyn Thomas (Llafur Cymru), Tom Giffard (Ceidwadwyr Cymreig), a Heledd Fychan (Plaid Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

NDM7760 - Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

Mike Hedges (Llafur Cymru), Rhianon Passmore (Llafur Cymru), Natasha Asghar (Ceidwadwyr Cymreig) a Cefin Campbell (Plaid Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

NDM7761 – Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

Buffy Williams (Llafur Cymru), Joel James (Ceidwadwyr Cymreig) a Luke Fletcher (Plaid Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor Deisebau.

NDM7762 – Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

1. John Griffiths (Llafur Cymru), Andrew RT Davies (Ceidwadwyr Cymreig) a Heledd Fychan (Plaid Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

2. Rhianon Passmore (Llafur Cymru) ar ran Vikki Howells (Llafur Cymru), Jack Sargeant (Llafur Cymru) ar ran John Griffiths (Llafur Cymru), Natasha Asghar (Ceidwadwyr Cymreig) ar ran Andrew RT Davies (Ceidwadwyr Cymreig) a Rhun ap Iorwerth (Plaid Cymru) ar ran Heledd Fychan (Plaid Cymru), yn aelodau amgen o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

NDM7763 – Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Mike Hedges (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid yn lle Alun Davies (Llafur Cymru).

NDM7764 – Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jayne Bryant (Llafur Cymru) yn lle Jack Sargeant (Llafur Cymru), a Peter Fox (Ceidwadwyr Cymreig) yn lle Mark Isherwood (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelodau o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

## 5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Busnesau bach a thwristiaeth

(60 munud)

**NDM7744** Hefin David (Caerffili)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi'r rôl sylweddol y mae busnesau bach yn ei chwarae o ran cynnal economïau lleol drwy gydol pandemig y coronafeirws drwy addasu i amgylchiadau na welwyd eu tebyg o'r blaen.

2. Yn nodi pwysigrwydd busnesau bach lleol, yn enwedig rhai yn y sector twristiaeth a'r sectorau cysylltiedig, wrth i ni adfer o'r pandemig a dechrau ail-adeiladu ein cymunedau a'n heconomïau lleol.

3. Yn nodi ymhellach yr anogaeth gref gan Lywodraeth Cymru i bobl fynd ar wyliau yng Nghymru eleni a mwynhau ei hatyniadau a'i safleoedd o harddwch naturiol eithriadol niferus.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda chynrychiolwyr y gymuned busnesau bach a thwristiaeth i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan twristiaeth gynaliadwy drwy gydol y flwyddyn.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r un rhanddeiliaid er mwyn integreiddio'r ddau sector i'w strategaeth economaidd a chynlluniau adfer COVID-19 yn nhymor y chweched Senedd er mwyn sicrhau bod y ddau yn cael eu cefnogi'n ddigonol a bod ganddynt y gwydnwch angenrheidiol i gynnal unrhyw ergydion yn y dyfodol.

**Cyd-gyflwynwyr**

John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

**Cefnogwyr**

Carolyn Thomas (Gogledd Cymru)

Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru)

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Sarah Murphy (Pen-y-Bont ar Ogwr)

Vikki Howells (Cwm Cynon)

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y rhwydwaith ffyrdd

(60 munud)

**NDM7748** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn gresynu at:

a) methiant llywodraethau olynol Cymru i fynd i'r afael â phroblemau gyda thagfeydd a llygredd aer ar y rhwydwaith ffyrdd yng Nghymru;

b) dosbarthiad annheg buddsoddiad cyfalaf yn y rhwydwaith ffyrdd ledled Cymru;

c) y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus gwael a thoriadau mewn gwasanaethau bysiau, yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru.

2. Yn nodi â phryder penderfyniad Llywodraeth Cymru i oedi pob cynllun gwella ffyrdd newydd.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) adeiladu ffordd liniaru'r M4, uwchraddio'r A55 a'r A470, a deuoli'r A40 i Abergwaun;

b) cael gwared ar gynigion i alluogi cyflwyno prisio ffyrdd yng Nghymru;

c) gwella mynediad i seilwaith gwefru cerbydau trydan yn sylweddol;

d) gweithio gyda gweithredwyr bysiau a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn opsiwn ymarferol i bobl ym mhob rhan o'r wlad.

## 7 Cyfnod pleidleisio

## 8 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7747** Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru)

Mwy na dim ond gwên: A yw preswylwyr cartrefi gofal yn cael triniaeth ddeintyddol sy'n briodol?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 13 Gorffennaf 2021

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 30/06/2021 i'w hateb ar 07/07/2021

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## GWEINIDOG YR ECONOMI

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

1 OQ56721 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i fusnesau yn Alun a Glannau Dyfrdwy?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

2 OQ56749 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hybu twristiaeth yn Sir Ddinbych?

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

3 OQ56729 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith technoleg arloesol ar y gweithlu?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

4 OQ56717 **(e)**

Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi'r sector manwerthu yng Nghymru dros y 12 mis nesaf?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

5 OQ56751 **(w)**

Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd am effaith economaidd porthladdoedd rhydd?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OQ56745 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gefnogaeth ariannol a ddarparwyd i'r diwydiant lletygarwch dros y misoedd diwethaf?

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

7 OQ56732 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fargen twf y gogledd?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

8 OQ56747 **(e)** Datganodd yr Aelod fuddiant

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fargeinion dinesig yn ne Cymru?

**Hefin David** *Caerffili*

9 OQ56725 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth i asiantau teithio annibynnol y mae pandemig y coronafeirws wedi effeithio arnynt?

**Buffy Williams** *Rhondda*

10 OQ56730 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfraddau cyflogaeth yn y Rhondda?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

11 OQ56739 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi busnesau'r stryd fawr yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

**Joel James** *Canol De Cymru*

12 OQ56726 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch yr effaith y bydd yr adolygiad o adeiladu ffyrdd yng Nghymru yn ei chael ar economi Cymru?

## Y GWEINIDOG IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

1 OQ56719 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiwygio gofal cymdeithasol?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

2 OQ56741 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod plant sydd angen gofal lliniarol yn cael y gofal gorau posibl?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

3 OQ56727 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gofal cartref yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

4 OQ56718 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y defnydd o driniaeth breifat o fewn y GIG?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

5 OQ56720 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad at wasanaethau meddygon teulu yn Alun a Glannau Dyfrdwy?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

6 OQ56738 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion i wella gwasanaethau dementia yng Nghymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

7 OQ56716 **(e)**

Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella systemau digidol o fewn GIG Cymru?

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

8 OQ56742 **(e)**

Beth yw asesiad presennol y Gweinidog o ledaeniad amrywiolyn Delta ym Mhen-y-bont ar Ogwr?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9 OQ56735 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglenni rheolaidd i sgrinio am ganser yng Nghymru?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

10 OQ56731 **(w)**

Pa gamau sydd yn cael eu cymryd i wella mynediad at ddiagnosis a thriniaeth canser yn dilyn y pandemig ar gyfer trigolion Canol De Cymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

11 OQ56734 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i fynd i'r afael ag amseroedd aros cleifion yng Ngogledd Cymru?

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

12 OQ56733 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella morâl staff sy'n gweithio yn y GIG?